

Cyd-gyfarfod y Cynghorau

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 2.00 p.m. ddydd Iau 31 Mawrth 2022 yn Winchester House, Canterbury Court, Campws Llundain

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Justin Albert
Tania Davies
Eifion Griffiths
Yr Athro Medwin Hughes
Dr Conny Matera-Rogers
Rowland Jones
Arwel Ellis Owen
Matthew Peake

Victoria Provis
Dr Stuart Robb
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry
Dr Kerry Tudor

Hefyd yn bresennol:

Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Andrew Cornish, Pennaeth Coleg Sir Gâr/Ceredigion
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Shône Hughes, Pennaeth Staff

Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol (drwy Teams)
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

Rhif y cofnod	Prif bwyntiau trafod	Cam gweithredu / penderfyniad
22.14 Ymddiheuriadau am absenoldeb	Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Tony Ball, Pam Berry, Andrew Curl, Siwan Davies, Margaret Evans, Uzo Iwobi, Vanessa Liverpool, Geraint Roberts, Emlyn Schiavone, Maria Stedman, Deris Williams	
22.15 Datganiadau o fuddiannau	DERBYNIODD y Cynghorau y Datganiadau o fuddiannau fel y'i NODIR yn adroddiad y Clerc (JCO139).	
22.16 Adroddiad y Cadeirydd	<p>DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad y Cadeirydd (JCO140).</p> <p>Adroddodd y Cadeirydd fod Liam Powell, fyfyrwr-lywodraethwr, wedi ymddiswyddo o 25 Mawrth 2022 i ymgymryd â swydd ym Phrifysgol De Cymru. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei wasanaeth i'r Cyngor ac am ei gyfraniad sylweddol i'r Adolygiad diweddar gan yr ASA.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd hefyd i'r uwch dîm am y modd roeddynt wedi gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr ar nifer o faterion a chanmolodd y ffordd yr ymdriniwyd â'r materion ynghlwm â hyn.</p> <p>Diweddarodd y Cadeirydd aelodau ar y cyfarfod ChUW diweddar, yn cynnwys pryderon ynghylch rhewi ffioedd dysgu yn Lloegr ac amlinellodd effaith hynny. Byddai'n rhoi diweddariad ar y mater hwn maes o law.</p>	
22.17 Adroddiad yr Is-Ganghellor	Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod.	
22.18 Cofrestr Risg	Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod.	
22.19 Adroddiad Blynyddol: Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2020/21	<p>YSTYRIODD y Cynghorau Adroddiad Blynyddol: Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2020/21(JCO143) PCYDDS, a fyddai'n ddogfen gyhoeddus yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.</p> <p>Nododd yr aelodau fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar gynnydd o ran y targedau a osodwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 y Brifysgol. Roedd hefyd yn cynnwys dadansoddiad manwl o broffil y staff a myfyrwyr yn ôl nodweddion gwarchoddedig. Nododd CGAD fod y Brifysgol hefyd i gyhoeddi ei hadroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau y diwrnod hwnnw.</p>	

Rhif y cofnod	Prif bwyntiau trafod	Cam gweithredu / penderfyniad
	<p>Cyfeiriodd aelodau at ddatgelu gwybodaeth bersonol a chanmolasant y modd y cefnogai'r Brifysgol staff a myfyrwyr i ddatgelu eu gwybodaeth, gan adeiladu cymuned gref a chefnogi'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud o ran cydraddoldeb.</p> <p>Adroddodd CGAD y byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan PCYDDS nes ymlaen y diwrnod hwnnw.</p>	
22.20 Cofnodion y cyfarfod diwethaf	CADARNHAODD y Cynghorau Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 27 Ionawr 2022 (JCO144).	
22. 21 Pwyntiau Gweithredu	DERBYNIODD y Cynghorau'r tabl pwyntiau gweithredu a ddiweddarwyd (JCO145).	
22.22 Prevent – ymateb CCAUC	DERBYNIODD y Cynghorau ymateb CCAUC i adroddiad Prevent blynyddol y Brifysgol, a gadarnhaodd fod y ddwy brifysgol wedi dangos tystiolaeth ddigonol o roi sylw dyledus i'r ddyletswydd Prevent (JCO146).	
22.23 Cynllun gweithredu Dyletswydd Prevent	DERBYNIODD y Cynghorau Gynllun Gweithredu Dyletswydd Prevent PCYDDS/PC o fis Mawrth 2022 (JCO147).	
22.24 Datganiadau o fuddiannau	Nid adroddwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod.	
Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf	Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 7 Gorffennaf 2022.	

Terfynwyd y cyfarfod am 2.45 p.m.